| | | |
|---|---|---|
| pacey CYMRU | **Astudiaeth Achos Camau** | Camau<br>Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar<br>Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare |

**Trosolwg o'r gwaith**

Mae’r astudiaeth achos hon yn dangos sut mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio gyda gwarchodwyr plant ledled Cymru i gefnogi eu datblygiad yn y Gymraeg drwy raglen hyfforddi Camau.

**Beth yw cefndir y gwaith hwn?**

Gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae llawer mwy o bwyslais ar gyflwyno'r Gymraeg i blant a babanod mor gynnar â phosibl er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer eu dysgu.

Mae’r rhaglen hyfforddi Camau, a lluniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cefnogi ymarferwyr yn y sector gofal plant a chwarae i ddatblygu a defnyddio mwy o'r Gymraeg gyda phlant er mwyn rhoi cychwyn da iddynt ar eu taith tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid Cwlwm i ddarparu hyfforddiant Cymraeg wedi’i deilwra i'r sector. Mae cynllun Camau yn gwrs hunan-astudio ar-lein tair rhan ar Lefel Mynediad ac mae ar gael i'r sector gofal plant a chwarae ac mae wedi’i ariannu’n llawn diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Enw’r rhan gyntaf yw Mynediad 1, yr ail yw Mynediad 2, a’r drydedd yw Mynediad 3. Mae pob cwrs yn ymwneud ag 20 awr o ddysgu annibynnol. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd wedi lansio Mynediad Gwaith Chwarae 1 yn ddiweddar, ond hyd yma nid yw aelodau PACEY wedi cael mynediad iddynt.

**Beth wnaeth PACEY Cymru?**

Mae Rheolwr Prosiect a Chydlynydd y Gymraeg PACEY Cymru wedi mynychu cyfarfodydd rhithwir ar-lein yn rheolaidd gyda phartneriaid Cwlwm i drafod cynlluniau gwaith a thargedau er mwyn darparu’r cymorth gorau posibl i ddysgwyr ac i sicrhau bod hyfforddiant yn dylanwadu ar arfer. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i rannu syniadau ac arfer da gyda’i gilydd, ac i drafod materion sy'n codi ac i gydlynu negeseuon cymorth a hyrwyddo.

Roedd gan PACEY Cymru ran i'w chwarae wrth hyrwyddo'r hyfforddiant gydag aelodau PACEY. Trwy hyrwyddo'r cwrs yn barhaus, derbyniodd PACEY Cymru gyfanswm o 54 o ddarpar ddysgwyr yn mynegi eu diddordeb rhwng Ebrill 2022 a Medi 2022. Mae hyn yn cynnwys 40 ar gyfer Mynediad 1, 8 ar gyfer Mynediad 2 a 6 ar gyfer Mynediad 3, ac mae'r ffigurau hyn yn parhau i dyfu. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â PACEY Cymru i fynegi eu diddordebau yn y lle cyntaf, lle byddai gofyn iddynt lenwi ffurflen gofrestru i gael mynediad i'r cwrs. Unwaith y byddai'r camau hyn

wedi'u cwblhau, byddai dysgwyr wedyn yn cael mynediad i'r cwrs o'u dewis gyda'r opsiwn o gael mynediad i fersiwn gogledd neu dde Cymru o'r cwrs.
Er mwyn gwella'r dysgu ymhellach mae dysgwyr Camau wedi defnyddio gweminarau cymorth iaith Gymraeg PACEY Cymru. Mae'r sesiynau byr hyn yn addas ar gyfer y rhai sydd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno adeiladu ar eu hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae geirfa Gymraeg yn cael ei rhannu a'i hategu gan ddogfen sain i'w defnyddio nôl yn y lleoliad, yn canolbwyntio ar wahanol destunau neu themâu y gall dysgwyr eu defnyddio yn eu trefn ddyddiol, gan ddilyn diddordeb y plant..
Yn ogystal â hyn, mae PACEY Cymru hefyd yn darparu cymorth iaith Gymraeg un i un dros y ffôn ac e-bost y gall dysgwyr ei gyrchu o fewn eu haelodaeth PACEY.
Datblygodd PACEY Cymru hefyd amrywiaeth o adnoddau ategol y gallai dysgwyr eu cyrchu ar y platfform i wella eu dysgu ymhellach. Mapiwyd yr adnoddau hyn i'r unedau perthnasol o fewn y cwrs a'u hyrwyddo gan Gydlynwyr yr Iaith Gymraeg.

**Tystlythyr gan ddysgwr Camau – Debra Hughes, gwarchodwr plant cofrestredig, Wrecsam.**

Mae Debra yn warchodwr plant cofrestredig sefydledig sydd wedi bod yn gweithio yn Wrecsam ers 8 mlynedd. Mae Debra wedi'i chofrestru ar gyfer 9 o blant o dan 12 oed, ac ar hyn o bryd mae'n gofalu am 4 o blant rhwng 7 mis a 5 oed.
Rheswm Debra dros dderbyn hyfforddiant Camau oedd dod yn fwy gweithgar gyda'i Chymraeg. *"Ar ôl astudio Cymraeg Lefel O yn yr ysgol uwchradd ac yna defnyddio llawer o'r Gymraeg yn fy swydd flaenorol yn gweithio mewn Ysgol Gynradd, roedd gen i wybodaeth dda yn barod ond ni ddefnyddiais yr iaith cyn aml fel roeddwn i eisiau/angen. Dw i wir yn mwynhau siarad Cymraeg."*

**Hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer**

Mae Debra wedi bod yn aelod o PACEY Cymru ers blynyddoedd lawer ac wedi cymryd rhan mewn prosiectau a digwyddiadau PACEY Cymru. Yn dilyn cwblhau Camau Mynediad 1, mae Debra bellach wedi cofrestru ar gyfer Mynediad 2 ac yn bwriadu parhau i feithrin ei sgiliau Cymraeg er mwyn dod yn fwy dwyieithog. Yn ogystal â hyn, mae Debra yn mynychu gweminarau misol Cymorth Iaith Gymraeg PACEY Cymru, sydd wedi ei helpu i fagu hyder a defnyddio cymaint o Gymraeg â phosibl yn ei hymarfer.
Eglurodd Debra mai ei phrif her yw sillafu geiriau Cymraeg. *"Fy nod yw gallu ysgrifennu brawddeg yn y Gymraeg…. Rwy'n teimlo fel bod hyn yn hynod o sialens gan na chefais fy magu mewn awyrgylch Cymraeg, felly ni chefais erioed fy nhrochi yn yr Iaith. Byddai hyn wedi ei gwneud hi'n haws i mi fod yn rhugl, fodd bynnag rwy'n fwy na galluog gyda fy ngwybodaeth a'r hyfforddiant Camau i allu siarad gyda'r plant.*
I gydnabod yr ymrwymiad y mae aelodau wedi'i ddangos drwy gael mynediad i hyfforddiant Camau neu drwy sesiynau cymorth iaith Gymraeg PACEY Cymru, roedd PACEY Cymru yn gallu darparu pecyn adnoddau Cymraeg cynhwysfawr o

lyfrau ac adnoddau gweithgareddau dwyieithog. Roedd y pecynnau hyn yn cynnwys llyfrau rhyngweithiol a synhwyraidd ar amrywiaeth o ddiddordebau cyfoes gan gynnwys byd natur, adeiladu, anifeiliaid, dinosoriaid, y tywydd, hyfforddiant toiled yn ogystal â rhai o hoff chwedlau teuluol traddodiadol. Dyma rai lluniau mae Debra wedi eu rhannu gyda PACEY Cymru i ddangos sut y mae'n ymgorffori'r adnoddau dwyieithog hyn yn ei gweithgareddau gyda'r plant






Creodd Debra bwrdd *'Sut wyt ti?'* i ganiatáu i'r plant fynegi eu teimladau trwy gyfrwng y Gymraeg.
Mae hi hefyd wedi gweithredu rhai ymadroddion o gwmpas y lleoliad, i'w hannog hi a'r plant i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft *"Ble mae?".*






Cynhwysodd Debra hefyd y llyfrau dwyieithog *'Cloddio am Ddinosoriaid'* ac *'Ar y fferm'* fel rhan o'i gweithgareddau i gyflwyno geirfa Gymraeg newydd trwy chwarae. *"Rwy'n creu adnoddau sy'n Gymraeg yn bennaf, mae fy mhlant eraill sy'n 'siarad Saesneg' wrth eu boddau yn siarad Cymraeg hefyd. Pa bynnag weithgaredd rydym yn ei wneud mi fyddaf yn defnyddio'r geiriau Cymraeg cyfatebol, yn ogystal â Saesneg, rwy'n ceisio bod mor ddwyieithog â phosib".*

**Cefnogaeth ac adborth**
Dyma adborth Debra ar hyfforddiant Camau a chefnogaeth PACEY Cymru:
*"Mae'n iaith hyfryd i'w dysgu, gall fod yn anodd os nad oes gennych unrhyw wybodaeth o unrhyw Gymraeg, ond dyma le byddai sesiynau gweminar ar-lein PACEY Cymru a Hyfforddiant Camau yn helpu dysgwr newydd. Os ydych yn warchodwr plant yng Nghymru, mi fydd yn bendant yn ehangu eich busnes a chreu teuluoedd newydd posibl sydd am ddefnyddio'ch gwasanaeth.*
*Mae cwrs Camau yn hawdd i'w ddilyn ac mae ganddo lawer o awgrymiadau defnyddiol a lawrlwythiadau i'ch cynorthwyo.*
*Roedd y gefnogaeth yn anhygoel! Roedd swyddog Cymraeg PACEY Cymru ar gael i gysylltu bob tro roeddwn i ei hangen, ac roeddwn i ei hangen yn aml! Fel bob amser, mae PACEY Cymru yn wych yn gyffredinol."*

**Gwybodaeth bellach**
Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â PACEY Cymru ar 02920 351407 neu e-bostiwch paceycymru@pacey.org.uk

| | | |
|---|---|---|
| pacey CYMRU | **Camau Case Study** | Camau<br>Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar<br>Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare |

**Overview of the work**

This case study demonstrates how PACEY Cymru have been working with childminders across Wales to support their Welsh language development through the Camau training programme.

**What is the background to this work?**

With Welsh Government's vision of reaching a million Welsh language speakers in Wales by 2050, there is much more emphasis on the Welsh language being introduced to children and babies as early as possible in order to set the foundations for their learning.

The Camau training programme, devised by the National Centre for Learning Welsh supports practitioners in the childcare and play sector to develop and use more of the Welsh language with children in order to give them a good start on their journey towards becoming fluent Welsh speakers.

PACEY Cymru have been working with The National Centre for Learning Welsh and Cwlwm partners to provide the sector with tailor made Welsh language training. The Camau scheme is a three-part online self-study course at Entry level and has been made available to the childcare and play sector and is fully funded with thanks to Welsh Government funding. The first named Mynediad 1 (Entry 1) part two named Mynediad 2 (Entry 2), and part three named Mynediad 3 (Entry 3). Each course relates to 20 hours of independent learning. The National Centre for Learning Welsh have also recently launched Mynediad Gwaith Chwarae 1 (Playwork Entry 1), however to date these have not been accessed by members of PACEY.

**What did PACEY Cymru do?**

PACEY Cymru's Project Manager and Welsh language Coordinator have regularly attended online virtual meetings with Cwlwm partners to discuss work plans and targets in order to provide the best possible support for learners and to ensure training influences practice. The meetings provided an opportunity to share ideas and good practice with one another, and to discuss issues arising and to coordinate support and promotional messages.

| | | |
|---|---|---|
| Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs<br>www.clybiauplantcymru.org | Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>https://earlyyears.wales/ | mudiad meithrin arbenigwyr y blynyddoedd cynnar<br>https://www.meithrin.cymru/ |
| NDNA Cymru National Day Nurseries Association<br>https://www.ndna.org.uk/ | cwlwm<br>www.cwlwm.org.uk | pacey CYMRU<br>https://www.pacey.org.uk/ |

PACEY Cymru had a role to play in promoting the training with members of PACEY. Through continuous promotion of the course, PACEY Cymru received a total of 54 potential learners expressing their interest between April 2022 and November 2022. This includes 40 for Mynediad 1, 8 for Mynediad 2 and 6 for Mynediad 3, and these figures continue to grow. Members were asked to contact PACEY Cymru to express their interests in the first instance, where they would be asked to complete a registration form to access the course. Once these steps were complete, learners would then have access to the course of their choice with the option of accessing the north or south Wales version of the course.

To enhance the learning further Camau learners have accessed PACEY Cymru's Welsh language support webinars. These short sessions are suitable for those with little or no Welsh skills, as well for those who wish to build on their confidence to use the language. Welsh vocabulary is shared and supported with an audio document to use back in the setting, focussing on different topics or themes that learners can use in their daily routine, following the interest of the children.

In addition to this PACEY Cymru also provides 1-2-1 Welsh language support via telephone and email which learners can access within their PACEY membership.

PACEY Cymru also developed a variety of supporting resources that learners could access on the platform to further enhance their learning. These resources were mapped to the relevant units within the course and promoted by the Welsh Language Coordinators.

**Testimonial of a Camau learner– Debra Hughes, registered childminder, Wrexham.**

Debra is an established registered childminder who has been working in Wrexham for 8 years. Debra is registered for 9 children under 12 years, and is currently caring for 4 children aged from 7 months to 5 years.

Debra's reason for taking up the Camau training was to become more active with her Welsh. "*Having studied O Level Welsh at high school and then using a lot of Welsh language in my previous job working in a Primary School, I already had a good knowledge but didn't use the language as often as I wanted/needed to. I really enjoy speaking Welsh."*

**Training influencing practice**

Debra has been a member of PACEY Cymru for many years and has engaged in PACEY Cymru projects and events. Following the completion of Camau Mynediad 1, Debra has now registered for Mynediad 2 and intends to continue building her Welsh language skills in order to become more bilingual. As well as this, Debra attends PACEY Cymru's monthly Welsh Language Support webinars, which has helped her to grow in confidence and implement as much Welsh into her practice as possible.

Debra explained that her main challenge is spelling Welsh words. "*I aim to be able to write a sentence in Welsh…. I do feel that it is extra challenging as I wasn't brought up in a Welsh speaking environment, so I was never immersed in the Language. This would have made it easier for me to become fluent, however I am more than capable with my knowledge and the Camau training, to be able to speak with the children".*

To recognise the commitment that members have shown by accessing Camau







Debra created a *'Sut wyt ti?' / How are you?* board, to allow the children to express their feelings through the medium of Welsh.

She has also implemented some prompts around the setting, to encourage her and the children to communicate through the medium of Welsh, for example *"Ble mae?/ Where*

training or through PACEY Cymru Welsh language support sessions, PACEY Cymru were able to provide comprehensive Welsh language resource pack of bilingual books and activity resources. These packs included interactive and sensory books on a range of topical interests including nature, construction, animals, dinosaurs, the weather, toilet training as well as some traditional family favourite tales. Here are some photos that Debra has shared with PACEY Cymru to demonstrate how she incorporated these bilingual resources into her activities with the children.

Debra also included the bilingual books *'Cloddio am Deinosoriaid / Digging for Dinasours'* and *Ar y fferm / On the farm'* as part of her activities to introduce new Welsh vocabulary through play.

*"I make resources that are in Welsh, my 'English speaking' children love learning Welsh too. Whatever activity we are doing I will use the equivalent Welsh words, as well as English, I try to be as bilingual as possible."*






**Support and feedback**

Here is Debra's feedback on the Camau training and PACEY Cymru support:

*"It is a lovely language to learn, it can be difficult if you have no knowledge of any Welsh, but this is where the Camau Training and PACEY Cymru online webinar sessions would help a new learner. If you are a childminder in Wales, it would most definitely enhance your business and create potential new families wanting to use your service".*

*The Camau course is easy to follow and has a lot of helpful hints and downloads to aid you.*

*The support was amazing! The PACEY Cymru Welsh officer was available to contact every time I needed her, and I needed her a lot! As always, PACEY Cymru are fantastic in general."*

**Further information**

For any queries, please contact PACEY Cymru on 02920 351407 or email paceycymru@pacey.org.uk

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
www.clybiauplantcymru.org

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru
https://earlyyears.wales/

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
https://www.meithrin.cymru/

NDNA Cymru
National Day Nurseries Association
https://www.ndna.org.uk/

cwlwm
www.cwlwm.org.uk

pacey CYMRU
https://www.pacey.org.uk/